| | |
|---|---|
| Fersiwn | C1 |
| Dyddiad adolygu diwethaf | Mawrth 2019 |

workwell equality&diversity
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

# DIWEDD Y MISLIF – CANLLAW

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae fformatau eraill ar gael ar gais.**

RHONDDA CYNON TAF

| RHEOLI'R DDOGFEN | | |
|---|---|---|
| **ENW'R POLISI** | **Diwedd Y Mislif - Canllaw** | |
| Adran | Adnoddau Dynol | |
| Rhif ffôn | 01443 444531 | |
| Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi | Mawrth 2019 | |
| Swyddog Adolygu | Melanie Warburton | |
| Dyddiad Adolygu | Mawrth 2019 | |
| Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb | Chwefror 2019 | |
| | | |
| **HANES DIWYGIO** | | |
| Dyddiad | Diwygiwyd gan | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| **CYMERADWYO'R DDOGFEN** | | |
| Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan: | | Dyddiad Cymeradwyo |
| Uwch Garfan Rheoli Adnoddau Dynol | | Chwefror 2019 |
| Carfan Rheoli Corfforaethol | | |
| Cabinet | | |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod angen cymorth ar weithwyr benywaidd, trawsrywiol ac anneuaidd yn ystod cyfnod diwedd y mislif, yn enwedig oherwydd nad yw'n bwnc sy'n cael ei drafod yn aml a'i bod hi'n hawdd ei gamddeall. Mae tua 1 o bob 3 menyw naill ai wedi bod trwy'r cyfnod yma neu yn mynd trwyddo fe ar hyn o bryd[1]. Nod y canllaw yma yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynglŷn â diwedd y mislif ymhlith pob gweithiwr.

Mae gan y Cyngor agwedd bositif tuag at gyfnod diwedd y mislif a'i fwriad yw creu amgylchedd gwaith lle mae gweithwyr yn teimlo'n hyderus i godi materion am eu symptomau.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael eu trin yn deg, ac yn effro i'r ffaith y gall rhai o'r symptomau perthnasol ddod o dan y diffiniad 'nam' yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ogystal â hynny, mae deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflogwyr sicrhau iechyd a diogelwch pob gweithiwr. Efallai y bydd angen i'r Rheolwr Llinell ystyried ymgymryd ag asesiad risg o dan y Rheoliadau Rheoli os yw'r amgylchedd gwaith yn cael effaith negyddol ar weithiwr sy'n dioddef symptomau diwedd y mislif. Bydd yr asesiad risg yn helpu i nodi unrhyw addasiadau posibl a allai fod yn rhesymol ofynnol.

## 2. Diwedd y Mislif

Mae diwedd y mislif yn rhan naturiol o'r broses heneiddio ar gyfer menywod ac ar gyfer gweithwyr trawsrywiol ac anneuaidd a gafodd eu pennu'n fenyw adeg eu geni. Mae'n cyfeirio at y cyfnod pan fydd y mislif heb ddigwydd am 12 mis yn olynol. Mae hyn yn digwydd yn naturiol rhwng 48 a 55 oed. Yn gyffredinol, fe all y cyfnod o newid hormonaidd a'r symptomau cysylltiedig bara rhwng 4 ac 8 mlynedd. Pan fydd diwedd y mislif yn digwydd cyn 40 oed, mae hyn yn cael ei ystyried yn gynnar. Gall diwedd y mislif ddigwydd o ganlyniad i driniaethau meddygol, neu fe all ddigwydd ar ei ben ei hun.

Mae diwedd y mislif yn digwydd i bob person sydd wedi'i eni'n fenyw ac yn dechrau pan fydd yr ofarïau'n methu â chynhyrchu'r hormonau estrogen a progesteron. Y dybiaeth yw mai'r lefel isel/newidiol o hormonau (yn enwedig estrogen) sy'n dilyn, sy'n achosi'r symptomau.

Dydy diwedd y mislif ddim yn salwch. Serch hynny, mae rhai o'r symptomau cysylltiedig yn cynnwys ysbeidiau o deimlo'n boeth, mislifoedd trwm, problemau wrinol, crychguriadau, chwysu a dihuno yn y nos, blinder, ei chael hi'n anodd canolbwyntio, cof gwael, natur flin, newid mewn hwyliau, llid y croen, pyliau o bryder, poenau, croen a llygaid sych. Fydd pob person ddim yn dioddef yr holl symptomau yma ac mae'n bosibl na fyddan nhw'n digwydd yn barhaus.

Gall newidiadau hormonaidd sy'n gysylltiedig â diwedd y mislif effeithio ar iechyd person yn y dyfodol yn ogystal ag ar ei brofiad o'r symptomau. Mae rhai pobl angen cyngor a thriniaeth feddygol, er enghraifft, Therapi Adfer Hormonau. Gall ceisio cyngor meddygol ynglŷn â symptomau sy'n ymwneud â diwedd y mislif olygu amser i ffwrdd o'r gwaith ar

1. Cyngres Undebau Llafur Cymru – Diwedd y mislif a'r gweithle

gyfer apwyntiadau meddygol a/neu driniaeth. Gall Triniaeth Adfer Hormonau fod o fudd i rai pobl (er enghraifft, drwy helpu i leihau'r risg o osteoporosis mewn grwpiau risg uchel). Dydy Triniaeth Adfer Hormonau ddim yn addas i bawb - mae cyngor meddygol a goruchwyliaeth yn hanfodol.

Fel rheol, mae diwedd y mislif yn broses naturiol sy'n digwydd yn raddol, ond fe all fod yn sydyn ac yn ddifrifol os yw'n cael ei achosi gan ymyrraeth feddygol - er enghraifft, hysterectomi neu rai triniaethau canser penodol. Os yw diwedd y mislif yn digwydd yn sydyn yn dilyn salwch difrifol neu lawdriniaeth, mae'r symptomau yn tueddu bod yn fwy difrifol ac mae'n bosibl y bydd angen triniaeth neu ofal wedi'r llawdriniaeth er mwyn rhwystro rhagor o broblemau.

Mae'n bosibl y bydd gweithwyr sy'n mynd trwy'r cyfnod diwedd y mislif yn wynebu anawsterau yn y gwaith oherwydd eu symptomau. Gall rhai deimlo'n llai hyderus o ganlyniad i symptomau sylweddol sy'n achosi embaras. Gall blinder a chwysu yn y nos olygu bod gweithwyr yn fwy agored i flinder a straen yn y gwaith.

Gall gweithwyr sy'n dioddef symptomau diwedd y mislif gael eu heffeithio mewn ffyrdd gwahanol. Dyma rai o'r ffactorau a all olygu bod bywyd yn anodd iddyn nhw yn y gweithle:

- Diffyg asesiadau risg addas;
- Diffyg ymwybyddiaeth o'r cyfnod diwedd y mislif;
- Awyru ac ansawdd aer gwael;
- Dim dŵr yfed ar gael;
- Toiledau annigonol ac amseroedd egwyl anhyblyg;
- Agweddau negyddol;
- Rheolwyr llinell / cydweithwyr digydymdeimlad.

## 3. <u>Manteisio ar Gymorth</u>

Rydyn ni'n cydnabod bod diwedd y mislif yn brofiad personol iawn ac y gall fod angen lefelau gwahanol o gymorth. Fel sy'n wir am bob cyflwr iechyd hirdymor, mae'r Cyngor yn effro i'r ffaith bod gofyn i reolwyr llinell roi cymorth cydymdeimladol ac addas er mwyn helpu gweithwyr i ddelio'r â'r materion sy'n deillio o'r cyfnod diwedd y mislif.

Mae'n bosibl bydd gweithwyr yn teimlo'n anghyfforddus yn mynd i'w Rheolwr Llinell os ydyn nhw'n wynebu problemau, a hynny oherwydd y tabŵ ynghylch diwedd y mislif sy'n bodoli o hyd. Mae opsiynau eraill ar gael, er enghraifft, mynd i siarad â'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth neu Adnoddau Dynol, neu geisio cyngor gan yr Uned Iechyd a Lles Galwedigaethol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau nad yw amodau yn y gweithle yn gwneud y symptomau yn waeth. Efallai y bydd angen addasiadau dros dro yn y gweithle i gefnogi cydweithwyr sy'n dioddef. Dylai'r pwyntiau canlynol gael eu trafod gan ddibynnu ar symptomau'r gweithiwr:

1. Dylai asesiad risg gael ei gynnal er mwyn ystyried gofynion penodol gweithwyr sy'n mynd trwy'r cyfnod diwedd y mislif, a sicrhau na fydd yr amgylchedd gwaith yn gwaethygu eu symptomau. Bydd yr asesiad risg yn helpu i nodi unrhyw addasiadau a fydd eu hangen.

1. Cyngres Undebau Llafur Cymru – Diwedd y mislif a'r gweithle

2. Lle bo'n bosibl, dylai'r oriau gwaith fod yn ddigon hyblyg i sicrhau eu bod nhw'n diwallu anghenion y cydweithwyr sy'n cael eu heffeithio er mwyn iddyn nhw, er enghraifft, ddechrau'r gwaith yn hwyrach ar ôl noson wael o gwsg, gadael y gwaith heb rybudd neu gymryd rhagor o seibiannau yn ystod y dydd.

3. Dylai ffactorau amgylcheddol gael eu hystyried. Mae gweithwyr wedi tynnu sylw at ddefnyddioldeb rheoli'r tymheredd a systemau awyru, a defnyddio gwyntyllau. Gall cynlluniau seddi'r swyddfa gael eu hadolygu hefyd, er mwyn rhoi'r cyfle i weithiwr eistedd ar bwys ffenestr er mwyn i'r gweithiwr addasu tymheredd yr ystafell yn ôl ei anghenion.

4. Dylid talu sylw i argaeledd dŵr yfed oer a chyfleusterau glanweithdra digonol yn y gweithle.

5. Gall gwisgoedd waethygu'r symptomau o ran ysbeidiau o deimlo'n boeth a chwysu. Lle bo modd felly, dylid bod yn hyblyg er mwyn gwneud y sefyllfa yn haws o ran y symptomau yma.

6. Efallai y bydd angen addasiadau i ddyletswyddau'r gweithiwr oherwydd gall fod yn fwy anodd delio ag ysbeidiau o deimlo'n boeth wrth ymgymryd â gwaith sy'n cynnwys cyflwyniadau a chyfarfodydd ffurfiol er enghraifft.

## 4. <u>Hunangymorth</u>

Mae'r cyngor hybu iechyd cyfredol yn amlygu pwysigrwydd dewisiadau da o ran eich ffordd o fyw cyn, yn ystod ac ar ôl diwedd y mislif, a manteision y canlynol:

- ymgynghori â'ch meddyg teulu ar reoli diwedd y mislif ac i sicrhau nad yw'r symptomau yn gysylltiedig â phroblemau eraill
- ceisio cymorth a thrafod eich symptomau gyda rheolwr dibynadwy
- cael eich atgyfeirio i'r Uned Iechyd a Lles Galwedigaethol ynglŷn â'ch symptomau er mwyn cael cyngor a chymorth mewn perthynas ag addasiadau yn y gweithle
- bwyta'n iach – yn ôl yr ymchwil, gall deiet cytbwys helpu i leddfu rhai symptomau
- bwyta'n rheolaidd - i osgoi amrywiadau mewn lefelau siwgr yn y gwaed
- gwisgo ffibrau naturiol - i ganiatáu i'r corff reoli ei dymheredd ei hun
- ymarfer corff rheolaidd – er mwyn rheoli pwysau a lles
- yfed digonedd o ddŵr
- rhoi'r gorau i ysmygu
- sicrhau nad ydych chi'n yfed gormod o alcohol ac yn dilyn yr argymhellion

1. Cyngres Undebau Llafur Cymru – Diwedd y mislif a'r gweithle

- cael mynediad i oleuni naturiol
- bod â digon o gyfleoedd i orffwys ac ymlacio.

Gall y rhain helpu gyda rhai o symptomau diwedd y mislif ond fe allen nhw helpu i leihau'r risg o osteoporosis (esgyrn bregus), clefyd siwgr a chlefyd y galon yn hwyrach mewn bywyd.

## 5. Rhagor o wybodaeth a chymorth

Mae rhagor o wybodaeth am ddiwedd y mislif ar gael gan y canlynol:

- Healthtalk.org
  http://www.healthtalk.org/peoples-experiences/later-life/menopause/topics
- Menopause matters
  www.menopausematters.co.uk
- Menopause Support UK
  www.menopausesupport.co.uk
- Gwybodaeth GIG ynglŷn â Therapi Adfer Hormonau
  https://www.nhs.uk/conditions/hormone-replacement-therapy-hrt/
- Tudalennau GIG
  http://www.nhs.uk/Conditions/Menopause/Pages/Introduction.aspx
- The British Menopause Society
  www.thebms.org.uk
- Women's Health Concern
  https://www.womens-health-concern.org/help-and-advice/factsheets/menopause/

# CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

## ASESIAD RISG ENGHREIFFTIOL AR GYFER GWEITHIWR SY'N DIODDEF SYMPTOMAU DIWEDD Y MISLIF

**LLEOLIAD:**

**ASESWR/ASESWYR:**

**GWEITHIWR:**

**SWYDD: RHEOLWR LLINELL**

**RHEOLWR LLINELL:**

**DYDDIAD: 01/01/2019**

**DYDDIAD ADOLYGU: 01/04/2019**

| PERYGL | EFFAITH AR Y GWEITHIWR | MESURAU RHEOLI PRESENNOL | CAMAU PELLACH SYDD ANGEN EU CYMRYD |
|---|---|---|---|
| **Gweithfannau a'r Amgylchedd Gwaith** | Efallai na fydd gweithfannau neu'r amgylchedd gwaith yn addas i weithwyr ac yn achosi problemau sy'n ymwneud ag osgo a/neu broblemau seicolegol. | Polisi Offer Sgrin Arddangos (DSE) ar waith ac ar gael, ynghyd â chanllawiau ategol, ar Ffynhonnell RhCT / RCT Source.<br><br>Mae'r gwaith yn cael ei drefnu i sicrhau seibiannau naturiol i ffwrdd o'r Offer Sgrin Arddangos.<br><br>Mae goleuadau addas yn bresennol ym mhob gweithle. | Os nad yw wedi'i gwblhau eisoes, ymgymryd ag asesiad Offer Sgrin Arddangos a phenderfynu a oes angen unrhyw addasiadau rhesymol.<br><br>Sicrhau bod y gweithiwr yn cymryd amser i ffwrdd o'i weithfan.<br><br>Gan fod gan bob unigolyn lefelau cysur gwahanol, ymgynghori â'r gweithiwr ar y lefelau goleuo, a lle bo'n briodol, gwneud addasiadau rhesymol (er enghraifft, darparu sbotoleuadau, addasu goleuadau nenfwd sefydlog ac ati). |

1. Cyngres Undebau Llafur Cymru – Diwedd y mislif a'r gweithle

| PERYGL | EFFAITH AR Y GWEITHIWR | MESURAU RHEOLI PRESENNOL | CAMAU PELLACH SYDD ANGEN EU CYMRYD |
|---|---|---|---|
| **Tymheredd** | Bydd gan bob gweithiwr dymheredd optimaidd gwahanol.<br><br>Yn ogystal â hynny, fe all tymheredd y gweithiwr amrywio oherwydd diwedd y mislif. | Mae systemau gwresogi ac awyru addas ar waith ac mae lefel y tymheredd yn cael ei chynnal.<br><br>Mae systemau cyflyru'r aer yn bresennol mewn rhai adeiladau.<br><br>Mae gwyntyllau desg yn cael eu darparu lle bo'n briodol.<br><br>Mae ffenestri sy'n agor yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau gwaith. | Monitro tymheredd y gweithle i sicrhau lefel resymol i'r rhan fwyaf o'r gweithwyr.<br><br>Gan fod gan bob unigolyn lefelau cysur gwahanol, ymgynghori â'r gweithiwr ar ei gysur thermol, a lle bo'n briodol, gwneud addasiadau rhesymol (er enghraifft, symud i ffwrdd o'r rheiddiadur, symud i ran o'r adeilad sydd â system cyflyru aer, adolygu safonau Cyfarpar Diogelu Personol / gwisgoedd ac ati) |
| **Cyfleusterau Lles** | Efallai na fydd toiledau yn hygyrch a gall hynny beri gofid, cynyddu'r risg o haint ac embaras.<br><br>Efallai na fydd cyfleusterau ymolchi a newid preifat ar gael a gall hynny beri gofid ac embaras.<br><br>Efallai nad oes dŵr yfed ar gael a gall hynny achosi diffyg hylif. | Mae toiledau ar gael sy'n hawdd eu cyrraedd ac mae biniau glanweithdra ar gael.<br><br>Mae cyfleusterau ymolchi a newid preifat ar gael mewn rhai gweithleoedd.<br><br>Mae dŵr yfed ar gael ym mhob gweithle'r Cyngor. | Sicrhau bod toiledau ar gael ac yn hawdd eu cyrraedd a, lle bo'n bosibl, darparu cyfleusterau ymolchi a newid preifat.<br><br>Lle bo'n briodol, ystyried a fydd newid lleoliad gwaith i un sydd â chyfleusterau preifat yn rhesymol.<br><br>Sicrhau bod y cyflenwad dŵr ar gael a rhoi gwybod am unrhyw broblemau i Reolwr yr Adeilad. |

1. Cyngres Undebau Llafur Cymru – Diwedd y mislif a'r gweithle

| PERYGL | EFFAITH AR Y GWEITHIWR | MESURAU RHEOLI PRESENNOL | CAMAU PELLACH SYDD ANGEN EU CYMRYD |
|---|---|---|---|
| **Symptomau Seicolegol** | Gall gweithwyr ddioddef poenau, teimlo'n chwil, pen tost, diffyg egni ac fe allen nhw deimlo'n ddiynni ac ati. | Mae rheolwr y gweithiwr yn effro i symptomau posibl diwedd y mislif ac yn darparu cymorth yn ystod y cyfnod yma. | Rhoi gwybodaeth sy'n ymwneud â diwedd y mislif i bob gweithiwr fel y gallan nhw adnabod a deall y symptomau, a chynnig cymorth. |
| **Straen** | Gall gweithiwr ddioddef o newidiadau mewn hwyliau, pigogrwydd a methu â chanolbwyntio ac ati. | Mae rheolwr y gweithiwr yn effro i symptomau posibl y mislif ac yn deall y gall ymddygiad ac ymagwedd y gweithiwr newid yn ystod y broses.<br><br>Mae polisi Straen yn y Gweithle ar waith sydd ar gael ar Ffynhonnell RhCT / RCT Source.<br><br>Mae systemau cymorth eraill ar waith, sef:<br>• Cyfarfodydd Carfan<br>• Goruchwyliaeth / sesiynau un-i-un<br>• Uned Iechyd Galwedigaethol<br>• Cymorth gan Undebau Llafur | Rhoi gwybodaeth sy'n ymwneud â diwedd y mislif i bob gweithiwr fel y gallan nhw adnabod a deall y symptomau, a dangos empathi tuag at y cydweithwyr hynny sydd efallai'n wynebu'r broses.<br><br>Gan ddefnyddio ffurflenni a chanllawiau sydd ar gael ar Ffynhonnell RhCT / RCT Source, llenwi asesiad risg straen yn y gweithle ar gyfer y gweithiwr a cymryd unrhyw gamau gofynnol.<br><br>Sicrhau bod y gweithiwr yn effro i'r systemau cymorth sydd ar gael ac y caiff drafod unrhyw bryderon yn gyfrinachol os oes angen. |

1. Cyngres Undebau Llafur Cymru – Diwedd y mislif a'r gweithle

| PERYGL | EFFAITH AR Y GWEITHIWR | MESURAU RHEOLI PRESENNOL | CAMAU PELLACH SYDD ANGEN EU CYMRYD |
|---|---|---|---|
| **Codi a Chario** | Gall codi a chario, yn ogystal â gwaith sy'n ymwneud â symudiadau ailadroddus neu osgo statig fod yn fwy anghyfforddus, a gall fod risg uwch o anaf.<br><br>Mae gweithwyr sydd wedi bod trwy'r cyfnod diwedd y mislif yn fwy tebygol o ddatblygu osteoporosis (esgyrn gwan) o ganlyniad i'r lefel is o estrogen yn y corff. | Mae cymhorthion codi a chario ar gael i helpu symud neu gario llwythi.<br><br>Mae ffenestri yn y rhan fwyaf o leoliadau gwaith sy'n caniatáu golau haul naturiol i sbarduno cynhyrchu Fitamin D sydd, yn ei dro, yn helpu i gryfhau'r esgyrn. | Sicrhau bod yr holl dasgau codi a chario nad oes modd eu hosgoi wedi cael eu hasesu.*<br><br>Trafod prosesau gwaith gyda'r gweithiwr er mwyn nodi unrhyw bryderon ynghylch symudiadau ailadroddus a/neu osgo statig.<br><br>Sicrhau bod y gweithiwr yn cymryd amser i ffwrdd o'i weithfan yn rheolaidd.<br><br>* Mae modd defnyddio siartiau Asesu Codi a Chario yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. |

**NODIADAU**

1. Rhaid i'r rheolwr llinell hysbysu'r gweithiwr am ei ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddo am ei iechyd, ei weithfan, y gweithle yn gyffredinol, y patrwm gwaith ac ati, er mwyn i'r rheolwyr allu mynd i'r afael â materion o'r fath.

2. Rhaid rhoi copi o'r asesiad risg yma i'r gweithiwr er ei wybodaeth, a rhaid cadw copi ar ffeil bersonol y gweithiwr.

3. Mae rheolwr llinell y gweithiwr yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gamau sydd wedi'u nodi yn cael eu gweithredu'n briodol

1. Cyngres Undebau Llafur Cymru – Diwedd y mislif a'r gweithle